



DAVIES, JOHN (Dr. John Davies o Fallwyd), c. 1567 - 1644, un o ysgolheigion mwyaf Cymru

Enw: John Davies
Dyddiad geni: c. 1567
Dyddiad marw: 1644
Priod: Sian Davies (née Prys)
Rhiant: Elsbeth ferch Lewis ap Dafydd Llwyd
Rhiant: Dafydd ap Sion ap Rhys
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: un o ysgolheigion mwyaf Cymru
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Rhiannon Francis Roberts

Ganwyd ym mhlwyf Llanferres yn sir Ddinbych, yn fab Dafydd ap Sion ap Rhys, gwehydd (meddir) wrth ei alwedigaeth, a'i wraig Elsbeth ferch Lewis ap Dafydd Llwyd; yr oedd ganddo dair chwaer, Jane, Catrin, a Gwen.

Prin iawn yw'r hanes amdano cyn iddo fynd i Fallwyd. Dywedir iddo dreulio pedair blynedd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, a graddio'n B.A. yno ar 16 Mawrth 1593-4. Gwyddys oddi wrth un o'i lythyrau (**NLW MS 14529E**) iddo drigiannu yng nghyffiniau Llandaf, o bosibl rhwng 1595 a 1601 pan oedd **William Morgan** yn esgob yno. Yr oedd cysylltiad agos rhyngddo a'r **esgob Morgan**; yn y rhagymadrodd i'w ramadeg (1621) cyfeiria ato'i hun fel cynorthwydd annheilwng i'r naill a'r llall o gyfieithwyr y *Beibl* i'r Gymraeg, sef **William Morgan** a **Richard Parry**, ac yn y rhagymadrodd i'r geiriadur (1632) y mae'n talu teyrnged i'r blaenaf fel y Gamaliel yr addysgwyd ef wrth ei draed.

Dywedir yn gyffredin mai tua diwedd 1604, ar ôl marwolaeth yr **esgob Morgan**, y cafodd John Davies reithoriaeth Mallwyd yn Sir Feirionnydd, ond os cywir y dyddiadau a roddir yn **NLW MS 1626C** gwnaethpwyd y penodiad cyn i'r esgob farw. Graddiodd yn B.D. o Goleg Lincoln, Rhydychen, ar 30 Mehefin 1608, ac yn D.D. ar 21 Mawrth 1615-6. Rywbryd tua 1609 priododd Siân Prys o'r Llwyn Ynn ym mhlwyf Llanfair Dyffryn Clwyd, wyres o du ei mam i'r **barwn Lewis Owen** o Ddolgellau, a chwaer i wraig yr **esgob Richard Parry**, olynnydd **William Morgan** yn Llanelwy. Ddechrau 1614 cafodd reithoriaeth Llanymawddwy gerllaw Mallwyd a segurswydd Darowen yn Sir Drefaldwyn, ond rhoddodd yr olaf i fyny yn 1621 pan gafodd segurswydd Llanfor ym Mhenllyn. Yn 1617 cafodd ei benodi'n brebendari Llanefydd yn eglwys gadeiriol Llanelwy. Ym Mallwyd yr oedd yn byw ac 'yn anfynych' yn unig y bu oddi yno hyd ei farwolaeth - yn Harlech, yn ôl **William Maurice** (Cefnybraich, Llansilin), 15 Mai 1644. Claddwyd ef ym Mallwyd ar 19 Mai. Y mae ei ewyllys ar gael.

Perthyn ei waith cyhoeddedig i'r blynyddoedd 1620-1 a 1632-3. Fel *Beibl Richard Parry* yr adwaenir argraffiad 1620 o'r *Beibl Cymraeg*, ond bernir heddiw mai John Davies biau llawer o'r clod am lendid a chywirdeb yr iaith; dichon fod iddo ran yn argraffiad 1621 o'r *Llyfr Gweddï Gyffredin* yn ogystal. Yn 1621 hefyd ymddangosodd gramadeg John Davies ei hunan, *Antiquae Linguae Britannicae...Rudimenta* . Dilynwyd y gramadeg yn 1632 gan y *Dictionarium Duplex* neu'r geiriadur dyblyg Cymraeg - Lladin a Lladin - Cymraeg, y naill adran ohono'n waith gwreiddiol wedi ei ddechrau yn 1593 a'r adran arall yn dalfyriad o waith mwy gan **Dr. Thomas Wiliems** o Drefriw sydd eto mewn llawysgrif (**Peniarth MS 228**); treuliodd John Davies flwyddyn gyfan bron yn Llundain pan oedd y geiriadur yn y wasg. Ef hefyd oedd cyfieithydd *Llyfr y Resolusion* (1632) a golygydd *Y Llyfr Plygain a'r Catechisme* (1633). Ar ôl ei farw y cyhoeddwyd yr *Articulau* (1664) a'r *Flores Poetarum Britannicorum* (1710).

Erys hefyd nifer o'r llawysgrifau a gopiwyd ganddo a throsto. Ffrwyth astudiaeth fanwl o'r ffynonellau hyn ac o waith y beirdd yn arbennig yw'r gramadeg a'r geiriadur a gyhoeddodd; ynddynt hwy gosododd sylfaen gadarn i astudiaethau diweddar o'r iaith Gymraeg.

Awdur

Rhiannon Francis Roberts, (1923 - 1990)

Ffynonellau

Ymchwil bersonol

T. Parry, *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg hyd 1900* (1944), 158 et passim

Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers, 1515â€“1690, in the National Library of Wales and elsewhere, 1926

Y Cymmrodor, xvii, 164

Llenyddiaeth Cymru o 1450 hyd 1600 (Lerpwl 1922), ii

Darllen Pellach

Ceri Davies, *Dr John Davies of Mallwyd: Welsh Renaissance scholar* (Cardiff 2004)

Erthygl Wicipedia: **John Davies**

Gweithiau

William Morgan, John Davies a Richard Parry (goln.), *Y Bibl Cyssegr-Ian: sef Yr Hen Destament, a'r Newydd*(Llundain 1630)

John Davies, *Antiquã; linguã; Britannicã; et linguã; Latinã; dictionarium duplex* (1632)

John Davies, *Antiquã; linguã; Britannicã; et linguã; Latinã; dictionarium duplex* (1632)

John Davies, *Antiquã; linguã; Britannicã; et linguã; Latinã; dictionarium duplex* (1632)

John Davies, *Antiquã; linguã; Britannicã; et linguã; Latinã; dictionarium duplex* (1632)

John Davies, *Antiquã; linguã; Britannicã; et linguã; Latinã; dictionarium duplex* (1632)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 64045128

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnod](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Roberts, R. F., (1953). DAVIES, JOHN (Dr. John Davies o Fallwyd), c. 1567 - 1644, un o ysgolheigion mwyaf Cymru. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-DAVI-JOH-1567>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGELL
THE NATION



Woddi gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government